



SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw a'i ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngwrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio gael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidaidd.

8 Mehefin 2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir **CYFARFOD** y **CYNGOR** yn **NEUADD CYNGOR CEREDIGION, PENMORFA, ABERAERON AC O BELL TRWY FIDEO-GYNHADLEDDA AR Ddydd Iau, 15 Mehefin 2023 am 10.00am** i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
3. Materion Personol
4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2023 a Chyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Mai 2023 (Tudalennau 5 - 18)
5. Ystyried y cynnig canlynol a gyflwynwyd o dan Reol 10.1 Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor: (Tudalennau 19 - 20)

Cynigydd: Cynghorydd Wyn Evans
Eilydd: Cynghorydd Gareth Lloyd

Noda'r Cyngor:

"Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfle sy'n codi gyda'r strategaeth newydd ar ddileu TB mewn gwartheg i ystyried pa mor effeithiol ydyw o ran lles anifeiliaid (bywyd gwyllt a da byw), iechyd y cyhoedd a'r gost.

Mae'r lefelau uchel parhaus o'r clefyd, ei effaith ar les anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd, ynghyd â'r gost gynyddol i'r pwrs cyhoeddus, yn awgrymu nad

yw'r mesurau presennol yn addas i'r diben. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi a gweithredu'r pwyntiau canlynol:

Clefydau Trosglwyddadwy yw TB buchol a dylid mynd i'r afael ag ef yn holistaidd fel mater o les anifeiliaid, yn fywyd gwyllt ac yn anifeiliaid fferm, a hynny gan ddefnyddio cyfres gyflawn o fesurau ar sail y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.

Mae'r gofyniad i brofi gwartheg yn aml yn rhoi straen ar dda byw ac yn peri risg uchel y bydd y rheiny sy'n cynnal y profion am TB buchol yn cael eu hanafu neu eu lladd.

Mae'r methiant parhaus i fynd i'r afael â TB buchol yn peri llawer o broblemau iechyd meddwl ymysg teuluoedd amaeth a phobl sy'n gysylltiedig â'r maes.

Pan fydd achosion yn ymddangos ar ddaliad amaethyddol mae angen ymdrin â nhw mewn modd sensitif gan gyfathrebu yn effeithiol ac yn uniongyrchol.

Mae angen i Fwrdd y Rhaglen a'r Grŵp Cyngori Technegol a benodwyd yn gyhoeddus yn ddiweddar gael cynrychiolaeth gytbwys sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid yr effeithir arnynt."

6. **I ystyried Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020-2021 a 2021-2022 (Tudalennau 21 - 164)**
7. **I ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar Gynrychiolydd Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cymunedol Aberaeron (Tudalennau 165 - 166)**
8. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidaidd ar apwyntiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar (Tudalennau 167 - 170)**
Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidaidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor